

Canllaw Clefion ar gyfer Golau Pwls Dwys a Laser

Cael Gwared ar Flew ac Adfywio'r Croen

Amcanion a Nodau

Darparu triniaethau Adfywio'r Croen a Chael Gwared ar Flew, a weithredir gan harddwch urbasba gan ddefnyddio system Skyncafe Bio Care One (Golau Pwls Dwys). Maent yn cael eu cynnig i bawb dros 18 oed a chyhoeddir y gost yn ein llyfryn prisiau copi caled ac ar ein gwefan. Cyn y driniaeth, mae'n rhaid i chi ddilyn gweithdrefn ymgynghori i ddechrau. Bydd ymgynghoriad yn cynnwys holiadur iechyd / ffordd o fyw a phrawf ar ddarn o'r croen. Bob amser, byddwn yn gwarchod cyfrinachedd ac urddas y cleient, o ymgynghoriad preifat i driniaeth mewn ystafell driniaeth breifat sy'n cloi, gan ddarparu tyweli priodol a dim ond y rhan o'r corff rydym yn gweithio arni fydd yn y golwg. Mae **Skyncafe** yn ddarparwr technolegau esthetig uwch yn y DU, gan arbenigo ar systemau ar gyfer y diwydiant harddwch. Drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid, rydym yn gallu darparu offer arloesol sy'n fforddiadwy ac yn addas at ddibenion hyfforddi, gan sicrhau canlyniadau diogel, effeithiol a phroffesiynol. Mae ffocws Skyncafe yn mynd y tu hwnt i ddim ond darparu'r peiriant laser gorau ar gyfer tynnu blew neu unrhyw driniaeth sengl arall. Mae'n darparu technoleg amlswyddogaeth sy'n rhoi hyblygrwydd i ddefnyddwyr i gyflawni'r

triniaethau esthetig y mae'r galw mwyaf amdanynt, a'r cyfan o ddim ond un ddyfais.

Ein Telerau a'n Hamodau

1. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni ofyn am eich caniatâd chi i anfon manylion eich triniaeth at eich meddyg teulu. Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwn yn gofyn am fanylion eich meddyg teulu. Os nad ydych yn fodlon rhoi'r manylion hyn, os bydd yr angen yn codi, bydd rhaid i ni roi manylion y driniaeth yn uniongyrchol i chi er gwybodaeth, fel eich bod yn gallu eu hanfon ymlaen at eich meddyg teulu.

2. Mae pob ymgynghoriad cychwynnol am ddim a heb unrhyw rwymedigaeth. Mae prisiau'r triniaethau wedi'u pennu'n benodol ac ar gael ar restr brisiau wedi'i chyhoeddi. Rhaid talu'n llawn ar y pryd am y driniaeth. Derbynnir arian parod, sieciau a chardiau credyd/debyd. Mae pecynnau arbennig ar gael ar gyfer y rhai sy'n talu ymlaen llaw am gwrs o sawl triniaeth. Nid oes ad-daliad ar gael am unrhyw driniaeth ac ni ellir trosglwyddo cyrsiau y talwyd amdanynt ymlaen llaw.

3. Mae'r clinig yn gweithredu polisi canslo ac os na fyddwch yn dod i apwyntiad sydd wedi'i drefnu, rhaid talu 50% o gost y driniaeth. Ni fydd urbasba yn codi ffi am ganslo o gael 24 awr o rybudd, ond byddem yn gwerthfawrogi cael gwybod cyn gynted â phosib os

nad ydych yn gallu dod i'ch apwyntiad. Mae gennym hawl i ildio'r ffi hon.

4. Ni chaniateir plant yn yr ardaloedd dan reolaeth laser ac nid yw urbasba yn gallu goruchwyllo plant heb neb i ofalu amdanynt yn yr ystafell aros. Peidiwch â dod â phlant iau na 10 oed i'r salon oni bai fod oedolyn cyfrifol yn dod gyda chi

Contract Cytundebol

Cyn dechrau ar unrhyw driniaeth laser neu Olau Pwls Dwys (gan gynnwys prawf croen), rhaid i chi lofnodi ffurflen caniatâd. Ar ôl rhoi eich caniatâd, rydych chi'n cadarnhau eich bod yn deall manteision a risgiau'r driniaeth. Hefyd, rydych chi'n cydnabod na ellir rhoi unrhyw warant mewn perthynas â'r canlyniad clinigol.

Pris Triniaethau

Mae ymgynghoriad manwl gan gynnwys prawf croen yn costio £25. Bydd y rhestr lawn o brisiau'n cael ei thrafod yn yr ymgynghoriad.

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cynhelir ymgynghoriadau cyn unrhyw driniaeth Laser neu Olau Pwls Dwys, er mwyn cadarnhau eich addasrwydd ar gyfer y driniaeth. Rydym yn trafod eich disgwyliadau ac yn rhoi esboniad trwyadl o'r triniaethau sy'n cael eu darparu. Bydd unrhyw gwestiynau sydd gennych chi'n cael eu hateb a thynnir sylw at unrhyw risgiau a sgil-

effeithiau. Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd apwyntiad ar gyfer y driniaeth yn cael ei drefnu. Byddwn yn trefnu ymgynghoriad ar gyfer unrhyw gleientiaid sy'n dod i mewn i'r salon i ofyn am apwyntiad.